

Newid cyflwr prinder dŵr

Sleid gan Neil Goalby. Ar gael yn rsc.li/4tVnFmp

Mae ffordd newydd o gynaeafu dŵr o'r aer wedi'i arsylwi ar grisialau. Arsylwodd gwyddonwyr ddŵr yn cyddwysu ac yn symud ar draws arwyneb crisial organig oedd yn sychdarthu'n araf. Mae'r dŵr yn symud ar hyd sianeli bach sy'n ymddangos ar arwyneb y crisial. Mae'r sianeli hyn yn mynd yn fwy dros amser wrth i fwy o'r solid sychdarthu a throi'n nwy. Gwelwyd hefyd bod y dŵr yn symud gronynnau solid bach ar hyd y sianeli.

Gallai hyn fod yn ffordd newydd o fynd i'r afael â phrinder dŵr mewn diffeithdiroedd. Mae proses debyg wedi'i harsylwi mewn rhai o blanhigion ac anifeiliaid yr anialwch i ddal dŵr.



© SIN1980/Shutterstock

Mae ystên-blanhigion yn goroesi ar anwedd dŵr sy'n cyddwysu ar eu harwyneb

Cwestiynau

1. Beth yw ystyr y termau cyddwysu a sychdarthu?
2. Eglurwch sut gallai'r broses hon fynd i'r afael â phrinder dŵr.
3. Eglurwch, o ran egni, pam y gallai cyddwysiad dŵr achosi i'r solid sychdarthu.